Goleuni

Cysyniadau:	**Ffyddlondeb, gofal, gonestrwydd, meddwl am eraill, rhannu.**
Amcan:	**Dangos beth yw nodweddion goleuni o safbwynt ysbrydol.**
Cyfarpar:	**Dangos yr adnod o Efengyl Ioan 8:12, fflachlamp i adlewyrchu goleuni, drych.**

Cyflwyniad:

● Rydym ni am ddechrau heddiw efo adnod o'r Beibl. Mae'r Beibl wedi ei rannu'n ddau, yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Wedyn mae gwahanol lyfrau yn y Beibl, 39 yn yr Hen Destament a 27 yn y Testament Newydd. Yna mae pob llyfr wedi'i rannu'n benodau ac adnodau.

● Mae'r adnod rydw i am ei dewis heddiw yn dod o'r Testament Newydd, o Efengyl Ioan, yr wythfed bennod ac adnod un deg dau: 'Fi ydy golau'r byd' (beibl.net) neu o'r Beibl Cymraeg Newydd, 'Myfi yw goleuni'r byd'. Iesu Grist ddywedodd y geiriau hyn amdano'i hun. Beth oedd o'n feddwl tybed?

Trafodaeth bellach:

● O ble mae goleuni yn dod? Bydd y plant yn siŵr o ateb: bwlb, fflachlamp, goleuni car, goleudy.

● Mae'r haul yn goleuo'r blaned gyfan. Heb oleuni'r haul fyddai 'na ddim bywyd o gwbl ar y ddaear. Yr haul sy'n dod â goleuni i'r byd.

● Dowch i ni ystyried beth ydi nodweddion goleuni:
Nid rhywbeth i edrych arno ydi goleuni. Pwrpas goleuni ydi goleuo pethau eraill. Pan fydd hi'n nosi a'r haul wedi machlud bydd yn rhaid

cael goleuni yn y tŷ. Ar ôl cynnau'r bwlb trydan, nid eistedd i edrych ar y bwlb fyddwn ni ond cario ymlaen â'n gwaith yng ngoleuni'r bwlb. Ar ddiwrnod braf o haf pan fydd y byd ar ei orau nid mynd allan i edrych ar yr haul fyddwn ni. Ond, yn hytrach, mwynhau goleuni'r haul. (Cofiwch atgoffa'r plant fod edrych yn uniongyrchol ar yr haul yn beryglus iawn. Fe all wneud niwed mawr i'n llygaid.) Byw yn y goleuni fyddwn ni a gwneud yn fawr o'r goleuni hwnnw.

● Mae goleuni hefyd yn dangos a datgelu pob dim. Rwy'n siŵr eich bod wedi clywed eich rhieni yn dweud rhywbeth tebyg i hyn: 'Wel, mae goleuni'r haul yn dangos pa mor fudr ydi'r ffenestri. Mae'n rhaid i mi eu glanhau nhw' neu 'Mae'r haul yma'n dangos y gwe pry cop a'r llwch i gyd. Mae'n rhaid i mi fynd efo'r dwster i lanhau.'

● Ond mae Iesu Grist wedi dweud rhywbeth ychwanegol. Nid yn unig mai Ef ydi 'goleuni'r byd'. Ond mae wedi dweud hefyd mewn adnod o lyfr arall yn y Testament Newydd sef Efengyl Mathew, pennod pump ac adnod un deg pedwar:
"Chi ydy'r golau sydd yn y byd."

● Yn y nos mae'r lleuad yn olau. Ond does gan y lleuad ddim goleuni ohoni ei hun, mwy nag sydd gan ein planed ni. Mae'n planed ni, y Ddaear, a'r lleuad yn dibynnu ar oleuni'r haul. Mae'r lleuad yn adlewyrchu goleuni'r haul ac yn ei adlewyrchu (yn ei daflu'n ôl i'r Ddaear). (Gellir dangos hyn i'r plant trwy ddefnyddio fflachlamp a drych. Taro goleuni'r fflachlamp ar y drych a bydd yr adlewyrchiad yn cael ei greu. Gellir taflu'r adlewyrchiad ar y mur neu'r bwrdd.)

● Sut medrwn ni adlewyrchu'r goleuni? Mae goleuni yn codi'n calon. Mae'n hwyl cael mynd allan pan mae hi'n braf ond digon diflas fydd hi pan mae'n bwrw glaw a chymylau tywyll o gwmpas. Sut medrwn ni godi calon pobl? Gwneud ein gorau, helpu. Bydd gan y plant nifer o syniadau eraill.

Emyn: Iesu yw goleuni'r byd: Canu Clod 243

Dyfyniad o'r Beibl:
Nid rhywbeth i'w guddio ydi goleuni ond rhywbeth i'w rannu:

"A does neb yn goleuo lamp i'w gosod o dan fowlen! Na, dych chi'n gosod lamp ar fwrdd er mwyn iddi roi golau i bawb yn y tŷ. Dyna sut dylai'ch golau chi ddisgleirio, er mwyn i bobl foli'ch Tad yn y nefoedd wrth weld y pethau da dych chi'n eu gwneud."

Mathew 5:15-16 beibl.net

Munud i feddwl:
Fedr y tywyllwch ddim cael gwared â thywyllwch. Dim ond goleuni fedr ymlid y tywyllwch. Martin Luther King

Llewyrchwch oleuni a bydd y tywyllwch yn diflannu. Desiderius Erasmus

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, helpa fi i fod yn oleuni sy'n goleuo'r ffordd i eraill. Diolch. Amen.